

Polisi DAD (Dod A Dyfais)

Ysgol Garth Olwg

Drwy gydol y ddogfen hon, defnyddir y gair Dyfais Symudol i ddisgrifio unrhyw gyfrifiadur, ffôn, cluniadur neu ddyfais arall sy'n gallu cyfathrebu gyda'r rhyngwrwd neu'n gallu cymryd fideo / lluniau / recordio sain. Enghreifftiau o'r dyfeisiau hyn sy'n debygol o fod yn eiddo i ddisgyblion yw iPhones, iPads, tabledi a chluniaduron.

Mae'r polisi hwn yn trafod y defnydd a'r cyfrifoldeb ar gyfer pob dyfais symudol yn yr Ysgol ac mae'n ychwanegiad i'r Polisi Defnydd Derbyniol o TGCh presennol.

Cytundeb Rhiant/Gwarchodwr a Disgybl

Mae'n rhaid i bob rhiant/gwarchodwr a disgybl gytuno i gynnwys y polisi DAD a dangos eu bod yn derbyn amodau defnyddio dyfeisiau o fewn yr ysgol.

Colli/Dwyn/Difrodi dyfais symudol personol

Cyfrifoldeb y disgybl sy'n dod â dyfeisiau symudol i'r ysgol yw gofalu amdanynt, yn union fel unrhyw eitem bersonol arall. Ni all Ysgol Garth Olwg dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddyfeisiau sy'n cael eu cam-drin, eu colli, eu dwyn neu eu difrodi. Mae gan lawer o ddyfeisiau ap darganfod lleoliad ac argymhellir bod y nodwedd hon yn cael ei gosod a'i defnyddio. Argymhellir hefyd bod dyfeisiau o'r fath wedi'u hyswiro'n llawn, i dalu am golled a difrod y tu allan i'r cartref.

Diogelwch a Gofal

Mae disgyblion yn gyfrifol am ofal a defnydd priodol o'u dyfais eu hunain. Mae disgyblion yn gyfrifol am ddiogelwch eu dyfais tra yn yr ysgol, gan ei chadw gyda nhw bob amser. Ni ddylai disgyblion rannu neu fenthyg eu dyfais i ddisgyblion eraill, er mwyn diogelu'r ddyfais ac i atal lledaenu'r firws. Rydym yn annog disgyblion i warchod eu dyfeisiau eu hunain, e.e. gyda defnyddio cyfrinair neu PIN fel sy'n briodol. Hefyd, dylid gosod meddalwedd gwrth-firws gyfoes i amddiffyn y ddyfais, lle mae modd gwneud. Dylai disgyblion osgoi rhannu unrhyw wybodaeth sensitif dros y rhyngwrwd tra wedi cysylltu i gysylltiad diwifr Cwmwl Rh.C.T.

Dylai'r dyfeisiau symudol ddod i'r ysgol gyda batri llawn; nid yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i wefru dyfeisiau .

Rhaid i ddisgyblion wirio eu dyfais bob dydd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddiffygion. Ni ddylid dod ag unrhyw ddyfais symudol bersonol sydd â diffygion lechyd a Diogelwch amlwg arni i'r ysgol.

Defnydd Addysgiadol

Mae defnyddio dyfeisiau DAD personol yn ôl **disgresiwn yr Ysgol ac ni ddylid ei weld fel hawl**. Gall disgyblion ddefnyddio dyfeisiau symudol eu hunain yn yr ystafell ddosbarth yn ôl disgresiwn yr athro/athrawes.

Sain, Ffotograffiaeth a Fideo

Ni chaniateir i ddisgyblion ddefnyddio'u dyfais i recordio sain neu i gymryd ffotograffau neu fideo o ddisgyblion eraill neu aelodau o staff heb eu caniatâd. Ni ddylai disgyblion lwytho cyfryngau o'r fath heb ganiatâd. Os yw rhywun yn tynnu llun gyda dyfais symudol heb ganiatâd, gyda'r bwriad o aflonyddu'r person/pobl, gallen nhw fod yn euog o drosedd dan y Ddeddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997, adrannau 1 a 2. Os yw rhywun yn anfon llun(iau) drwy Whatsapp, Snapchat, Facebook, Twitter neu unrhyw gyfrwng cymdeithasol arall, gallen nhw fod yn euog o drosedd dan y Ddeddf Cyfathrebu Faleisus 1988 a bydd unrhyw fynediad i'r we yn cael ei gollu a'r ddyfais symudol yn cael ei chymryd oddi wrthynt.

Polisi Defnydd o'r Rhyngrwyd

Mae'n ofynnol i ddisgyblion gydymffurfio â Pholisi Defnydd Derbyniol TGCh yr ysgol a Pholisi E-Ddiogelwch tra ar safle'r ysgol. Yn ogystal, ni ddylai disgyblion geisio cael mynediad i unrhyw ddeunydd amhriodol sydd wedi lawrlwytho eisoes ar eu dyfais neu o'r we. Mae gan aelodau staff yr hawl i gael mynediad at ddyfais symudol disgybl os oes rheswm dros gredu bod y disgybl yn mynd yn erbyn hyn neu yn torri amodau'r polisiau a nodwyd uchod.

Disgyblion sy'n Torri'r Polisi

Mae cam ddefnydd o dechnoleg yn fater disgyblu. Bydd yr ysgol yn gweithredu ein polisi Rheoli Ymddygiad mewn unrhyw achos o gam ddefnydd o dechnoleg.

Os yw disgybl yn torri'r Polisi DAD neu os yw aelod o staff yn teimlo eu bod yn debygol o fod wedi torri'r polisi hwn, yna bydd dyfais y disgybl yn cael ei chymryd oddi wrthynt a'i chadw yn swyddfa'r ysgol, lle gall y disgybl ei chasglu ar ddiwedd y dydd. Bydd yr aelod o staff yn gwneud cofnod o'r digwyddiad ar Classcharts er mwyn amlygu'r digwyddiad i'r Tîm bugeiliol a'r rhieni/gwarchodwyr. Os bydd y disgybl yn torri'r polisi eto, ni fydd y disgybl yn cael caniatâd i ddod â'r ddyfais i'r Ysgol eto.